Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Goleg Elidyr Cymunedau Camphill

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad: 12/07/2017**

## Cyd-destun

Mae Coleg Elidyr yn goleg arbenigol annibynnol preswyl i bobl ifanc 18 i 30 oed sydd ag anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol.

Mae Estyn yn arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn cyllid ar gyfer eu haddysg.  Ar hyn o bryd, mae 19 o'r dysgwyr hyn yn y coleg, bob un ohonynt yn byw ar y safle yn un o'r chwe thŷ preswyl.  Daw mwyafrif y dysgwyr hyn o Gymru.  Daw'r dysgwyr eraill o Loegr.  Mae 13 dysgwr yn ddynion a chwech yn fenywod.  Mae pob un ohonynt rhwng 19 a 22 oed.

Mae athroniaeth Camphill, sy'n pwysleisio dysgu ymarferol, trwy brofiad, yn dylanwadu ar waith y coleg.  Mae'r cwricwlwm yn cynnwys pynciau crefft, galwedigaethol ac astudiaethau tir i helpu dysgwyr i ddatblygu'r medrau y mae arnynt eu hangen i fyw yn fwy annibynnol.  Mae ystâd y coleg yn cynnwys fferm waith, gardd gegin a choetiroedd.

Caiff y coleg ei arwain gan dîm arwain, sy'n atebol i fwrdd ymddiriedolwyr.

Ers yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf, mae'r coleg wedi adnewyddu ystafell ddosbarth yr ardd, darparu adnoddau ar gyfer ystafell ffitrwydd fechan a dod ag alpacas i'r fferm waith.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae gan ddysgwyr agwedd gadarnhaol at eu dysgu.  Maent yn ymroi yn dda, gan gymryd rhan gyda diddordeb a brwdfrydedd.  Mae bron bob un o'r dysgwyr yn cynnal eu canolbwyntio yn ystod tasgau ac yn dangos balchder yn eu gwaith.

Mae gan y staff addysg berthynas broffesiynol dda iawn gyda'r dysgwyr.  Mae hyn yn helpu'r dysgwyr i reoli eu gwaith yn effeithiol a datblygu eu hyder a'u hunan-barch.

Mae'r coleg wedi datblygu diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol i'w holl staff.  Yn ogystal â'r grwpiau dysgu proffesiynol mewnol llwyddiannus, mae amrywiaeth eang o gyfleoedd eraill i staff ddatblygu'u medrau proffesiynol.  Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â darparwyr tebyg ac ymweliadau gan y darparwyr hynny, arsylwadau cymheiriaid a chyfleoedd i ennill cymwysterau pellach.

Mae'r cyfleusterau helaeth yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu'u medrau mewn sefyllfaoedd go iawn.

## Meysydd i'w datblygu

Mae'r coleg yn casglu data cychwynnol a pharhaus ar asesiadau safonedig, wedi'u gwirio'n allanol. Fodd bynnag, ni chaiff y data hwn ei ddefnyddio'n ddigon da i arfarnu a dangos cynnydd cyffredinol dysgwyr yn ystod eu cyfnod yn y coleg a llywio prosesau hunanasesu.

Er bod gan y coleg gynllun gwella ansawdd ac adroddiad hunanasesu manwl, mae'r rhain yn canolbwyntio'n ormodol ar y ddarpariaeth ac nid digon ar ddeilliannau.

## Argymhellion

A1 Defnyddio data asesiadau safonedig, wedi'u gwirio'n allanol, yn effeithiol i arfarnu a dangos cynnydd dysgwyr

A2 Sicrhau bod adroddiad hunanasesu a chynllun gwella ansawdd y coleg yn canolbwyntio'n briodol ar ddeilliannau

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwneud defnydd pellach o'r data gwerthfawr y mae'r coleg yn ei gasglu i ddadansoddi ac arfarnu safonau grwpiau o ddysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r coleg wedi diwygio'i brosesau ar gyfer casglu a dadansoddi cynnydd dysgwyr unigol yn gysylltiedig â'u targedau ac mae bellach yn defnyddio'r data hwn i ddadansoddi'r cynnydd a wnaed gan grwpiau o ddysgwyr. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys nodweddion dysgwyr, fel y math o angen dysgu a rhywedd. Er bod y dadansoddiad hwn yn dangos nad oes gwahaniaeth amlwg rhwng grwpiau o ddysgwyr, mae gan staff fwy o ddealltwriaeth erbyn hyn o'r ffordd y gall data gael ei ddefnyddio i olrhain a monitro perfformiad.

Yn ogystal, mae'r coleg wedi defnyddio'r data hwn i arfarnu effaith hyfforddiant ar y cynnydd a wneir gan ddysgwyr, yn enwedig dysgwyr ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig, wrth ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

**Argymhelliad 2: Gwneud yn siŵr bod pob aelod o staff yn annog dysgwyr i weithio'n annibynnol pan fo modd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf, mae'r coleg wedi sefydlu grŵp dysgu proffesiynol effeithiol sy'n canolbwyntio ar ffyrdd o gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu hannibyniaeth. Mae'r holl staff addysg yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r grŵp, sy'n cynnwys prosiectau i dreialu arfer orau. Mae staff wedi nodi amrywiaeth o strategaethau effeithiol, er enghraifft modelu, adlewyrchu a chamu yn ôl. Mae'r strategaethau hyn yn cael eu defnyddio'n gyffredin ar draws y cwricwlwm erbyn hyn. Yn ogystal, mae staff a dysgwyr wedi datblygu mwy o ddealltwriaeth o bwysigrwydd datblygu medrau annibyniaeth.

Mae gan yr holl ddysgwyr dargedau unigol penodol ar gyfer gwella'u hannibyniaeth a chaiff y rhain eu pwysleisio ar draws bob gweithgaredd dysgu. Mae'r coleg wedi ymestyn cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu annibyniaeth trwy gynllun Gwobr Dug Caeredin hefyd.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am y coleg

| | |
|---|---|
| **Coleg** | Coleg Elidyr Cymunedau Camphill |
| **Rhif y coleg** | F0006001 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 08/05/2017 |
| **Perchennog** | David Sibbons |
| **Staff** | 1 is-bennaeth, 1 pennaeth addysg,1 pennaeth hyfforddeion a'r rhaglen bontio, 7 cydlynydd, 1 tiwtor/anogwr crefftau, 10 tiwtor, 3 chynorthwyydd cymorth dysgu lefel uwch, 7 cynorthwyydd cymorth dysgu |
| **Nifer y dysgwyr** | 19 |
| **Darpariaeth** | Preswyl 52 wythnos |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer** | Anableddau dysgu cymedrol i ddifrifol |
| **Arolygiad llawn diwethaf** | 02/06/2014 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 02/05/2016 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 06/03/2017 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Ms Denise Wade | Arolygydd Tîm |